WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2011

**Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru** **Cyf: 203A2011**

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 8 |
| **Adran 1: Archwilio Cyfrifon** | 9 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 9 |
| **Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd aceffeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau** | 11 |
| Er bod yna drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd pwysig | 11 |
| Ceir tystiolaeth gadarnhaol bod 'ffactorau galluogi' yn cael eu datblygu a'u defnyddio i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, ond mae angen gwneud mwy o gynnydd mewn rhai meysydd | 14 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol a monitro'r gyllideb effeithiol yn ystod y flwyddyn, ond mae'n wynebu heriau o ran cyflawni ei dargedau ariannol ar gyfer 2010-11 a thu hwnt | 16 |
| Mae adolygiadau archwilio perfformiad wedi nodi datblygiadau cadarnhaol ledled y sefydliad ynghyd â heriau penodol i'r Bwrdd Iechyd wrth iddo fynd i'r afael â'r amrywiadau a'r bylchau yn narpariaeth gwasanaethau | 17 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf | 20 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Cyflwynwyd llythyr blynyddol interim i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) ym mis Mehefin 2010. Roedd yr adroddiad hwnnw'n ymwneud â'm gwaith archwilio yn ystod chwe mis olaf cyrff rhagflaenol y Bwrdd Iechyd hyd 30 Medi 2009.
2. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn y Bwrdd Iechyd yn ystod rhan olaf 2009 a gydol 2010.
3. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
4. Cynlluniwyd yr archwiliad gennyf ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd yr adroddiadau hyn, a chytunwyd arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
5. Mae angen ystyried y canfyddiadau a nodwyd gennyf yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y gwaith ad-drefnu strwythurol mawr sydd wedi'i wneud yn y GIG yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf, a'r rhaglen o waith cenedlaethol sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, perfformiad cymysg a chynaliadwyedd ariannol. Gyda'i gilydd, mae hyn yn agenda newid sylweddol a heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd a'i staff.
6. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sawl maes lle y gellir datblygu trefniadau a gwasanaethau ymhellach. O ystyried maint yr agenda newid o fewn y GIG, mae'n anochel y caiff llawer o drefniadau corfforaethol a meysydd darparu gwasanaeth o fewn y Bwrdd Iechyd eu hadolygu neu eu newid.
7. Mae'n bwysig bod y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio, y ceir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad hwn, yn cael eu defnyddio fel ysgogiad a ffocws ar gyfer sylw rheolwyr i sicrhau y gweithredir gwelliannau mor gyflym â phosibl lle bo'u hangen.

## Archwilio Cyfrifon

**Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater**

8. Drwy fy ngwaith ar archwilio cyfrifon, rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd.
9. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
    - roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
    - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r perygl o gynnwys camddatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol; ac
    - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu fel y dylent.
10. Wrth roi barn ddiamod, rwyf wedi tynnu sylw'r Bwrdd Iechyd at nifer o faterion:
    - mae'n bosibl y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddiwygio'r ffordd y mae'n cyfrifyddu asedau a ddisodlir unwaith y bydd y newidiadau o fewn y safonau cyfrifyddu yn glir;
    - awgryma nifer yr addasiadau i'r datganiadau ariannol drafft bod yna le i wella'r ffordd y cânt eu paratoi a'u hadolygu; ac
    - mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal y momentwm o ran datrys hawliadau Gofal Iechyd Parhaus.
11. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r gyllideb ddiwedd 2009-10, yn rhannol o ganlyniad i fwy o arian anghylchol gan Lywodraeth y Cynulliad.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**Er bod yna drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd pwysig**

12. Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith sy'n sbarduno gwelliannau a lle caiff risgiau allweddol eu rheoli'n effeithiol.
    - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gweledigaeth pum mlynedd glir y bydd angen ei gwneud yn ganolog i'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau'n weithredol.
    - Mae yna strwythur sefydliadol clir gydag ymgysylltiad clinigol da wedi'i roi ar waith a'i esbonio i bawb, ond mae angen eglurhad pellach ar berthynas gwaith ardaloedd lleol a gwaith cyfarwyddiaethau.

- Mae yna strwythurau a chynlluniau dirprwyo priodol ar waith i lywodraethu'r busnes, ond mae angen datblygu'r trefniadau er mwyn gwella'r gwaith o gydgysylltu'r fframwaith llywodraethu.
- Mae strategaeth a fframwaith rheoli risg wedi'u datblygu, ond bellach mae angen gweithredu'r trefniadau hyn yn gyson ac atgyfnerthu diwylliant o reoli risg a dysgu sefydliadol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar reolaeth fewnol yn effeithiol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i atgyfnerthu'r fframwaith sicrwydd cyffredinol ymhellach.
- Er bod yna drefniadau cynhwysfawr ar gyfer adolygu a monitro targedau'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol (AOF) a thargedau perfformiad lefel uchel, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau.
- Mae yna drefniadau datblygedig ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb, gyda diwylliant gwrth-dwyll cryf a chodau ymddygiad clir.

### Ceir tystiolaeth gadarnhaol bod 'ffactorau galluogi' yn cael eu datblygu a'u defnyddio i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, ond mae angen gwneud mwy o gynnydd mewn rhai meysydd

13. Mae rheoli adnoddau allweddol, fel pobl ac asedau, yn dda yn nodwedd hanfodol o ran cyflawni gwerth da am arian. Trwy fy ngwaith archwilio, nodais:

- fod cynnydd yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu a'i fod yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau ar gyfer y gweithlu sy'n gwbl ymatebol i'r newidiadau yng ngwasanaeth y Bwrdd Iechyd a'r pwysau ariannol sydd arno wedi'u cwblhau hyd yma;
- er bod y trefniadau ar gyfer darparu gweithredol yn effeithiol ac wedi'u diffinio'n dda, mae yna le i ddefnyddio'r gwasanaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn fwy strategol ar draws y Bwrdd Iechyd*;*
- bod dull rheoli ystadau ac asedau'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac yn cefnogi dull cydgysylltiedig o gynllunio gwasanaethau a chyfalaf;
- bod gan y Bwrdd Iechyd swyddogaeth gaffael effeithiol sydd mewn sefyllfa dda i greu arbedion yn y dyfodol trwy gaffael strategol, cydweithredol a chynaliadwy;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu gwaith partneriaeth ac mae ganddo sylfaen dda i adeiladu arni; a
- bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu nifer o ddulliau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion ac mae'n parhau i ddatblygu'r trefniadau hyn.

**Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol a monitro'r gyllideb effeithiol yn ystod y flwyddyn, ond mae'n wynebu heriau o ran cyflawni ei dargedau ariannol ar gyfer 2010-11 a thu hwnt**

14. Mae trefniadau rheoli ariannol cyffredinol y Bwrdd Iechyd yn foddhaol, ond mae materion ynghylch cynaliadwyedd ariannol wrth fynd ymlaen yn parhau i beri cryn dipyn o ofid:

- mae yna drefniadau cynllunio ariannol cadarn yn ystod y flwyddyn ac er bod yna gynllun ariannol tymor canolig lefel uchel, nid yw'r cynlluniau manwl sy'n ei ategu wedi'u cwblhau eto;
- mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau a thargedau ariannol wedi ennill ei blwyf, ond gellid ei wella ymhellach trwy gael cysylltiadau gwell rhwng perfformiad ariannol a gweithgarwch gweithredol; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her i gyflawni gweddill ei gynllun arbedion am y flwyddyn ac i fantoli'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2011 yn unol â'r bwriad.

**Mae adolygiadau archwilio perfformiad wedi nodi datblygiadau cadarnhaol ledled y sefydliad ynghyd â heriau penodol i'r Bwrdd Iechyd wrth iddo fynd i'r afael â'r amrywiadau a'r bylchau yn narpariaeth gwasanaethau**

15. Mae fy ngwaith o archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi cynnwys adolygiadau o nifer o feysydd gwasanaeth penodol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi amlygu datblygiadau cadarnhaol ar draws y sefydliad, ynghyd â'r angen i fynd i'r afael ag amrywiadau a bylchau yn narpariaeth gwasanaethau. Deuthum i'r casgliad hwn yn dilyn gwaith archwilio manwl ar:

- gywirdeb data rhestrau aros;
- gwasanaethau iechyd meddwl oedolion;
- arlwyo mewn ysbytai;
- gwireddu buddion y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol
- staffio ar wardiau; ac
- adolygu'r trefniadau i weithredu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

16. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Mai 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd.

17. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

## Yr adroddiad hwn

18. Mae’r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi prif ganfyddiadau’r gwaith archwilio a wnaed rhwng Hydref 2009 a Rhagfyr 2010.

19. Ymgymeraf â’m gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i’r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

    a) archwilio ac ardystio’r cyfrifon a gyflwynir i mi gan y Bwrdd Iechyd;

    b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

    c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

20. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio’r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

    - canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
    - gwaith a wnaed fel rhan o’m hasesiad strwythuredig o’r Bwrdd Iechyd, gan archwilio’r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu, atebolrwydd a rheoli adnoddau;
    - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd;
    - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i’m cyfrifoldebau; a
    - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

21. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i’r Bwrdd Iechyd eleni. Mae’r negeseuon yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi’r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

22. Nid yw’r adroddiad manwl sy’n seiliedig ar fy ngwaith asesu strwythuredig wedi’i gwblhau eto, ond mae’r negeseuon o’r gwaith hwnnw sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi’u cytuno â’r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

23. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

    - archwilio cyfrifon; a
    - threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

24. Nododd Strategaeth Archwilio 2010 mai’r ffi archwilio arfaethedig fyddai £455,886 (TAW yn ychwanegol). Gan ystyried fod rhywfaint o waith yn dal i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â’r ffi arfaethedig.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

25. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2009-10. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

26. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
    - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
    - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
    - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
    - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
    - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.

27. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
28. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
    - amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
    - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r Datganiadau Ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hynny tynnais sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

29. Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 erbyn y dyddiad cau o 14 Mai 2010, a oedd yn dipyn o gamp. Mae'r adran Cyllid wedi wynebu her sylweddol yn ystod blwyddyn gyntaf y Bwrdd Iechyd i gyfuno systemau ariannol a rhoi trefniadau cynllunio ariannol, rheoli cyllideb ac adrodd ar waith.

DRAFT

30. O dan ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 29 Mehefin 2010. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r prif faterion a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn Adroddiad ISA 260**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Rhoi safonau cyfrifyddu ar waith yn y dyfodol | Mae'n bosibl y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd newid ei ddull cyfrifyddu ar gyfer asedau a ddisodlir unwaith y bydd y newidiadau yn y safonau cyfrifyddu yn glir. |
| Roedd nifer o gywiriadau wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol | Roedd nifer yr addasiadau i'r datganiadau ariannol drafft yn dangos bod yna le i wella'r ffordd y cânt eu paratoi a'u hadolygu. Fodd bynnag, ailddosbarthiadau a datgeliadau o fewn nodiadau'r cyfrifon oedd y mwyafrif o'r rhain. Rydym eisoes wedi trafod gwelliannau posibl i'r cyfrifon a'r dull archwilio gyda'r rheolwyr. |
| Nodi a datrys hawliadau gofal iechyd parhaus | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal y momentwm o ran datrys hawliadau Gofal Iechyd Parhaus, gan wneud darpariaethau priodol pan gydnabyddir atebolrwydd. |

## Roedd y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r gyllideb ddiwedd 2009-10, yn rhannol o ganlyniad i fwy o arian anghylchol gan Lywodraeth y Cynulliad

31. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ddiwedd 2009-10 yn dilyn £0.65miliwn arall o arian anghylchol gan Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â darpariaethau ar gyfer costau gofal iechyd parhaus. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn dal i beri gofid gyda gorwariant sylweddol yn parhau ar rai cyllidebau.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r perygl o gynnwys camddatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol

32. Wrth ystyried yr amgylchedd rheolaeth fewnol, rwy'n asesu trefniadau sy'n cynnwys rheolaethau lefel uchel dros y prif systemau cyfrifyddu a rheoli cyllidebau, gwaith a rôl archwiliadau mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio, sy'n rhan allweddol o'r gwaith o adolygu ac atgyfnerthu'r amgylchedd rheolaeth fewnol.

33. Gwelais fod y rheolaethau'n gweithredu'n effeithiol fel y bwriadwyd, felly roeddent yn sail ddibynadwy ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol.

34. Yn gyffredinol, roedd y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r safonau archwilio mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru, ac yn cefnogi barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2010. Mae'r adran Archwilio Mewnol wrthi'n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau diwygiedig.

DRAFT

**Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu fel y dylent**

35. Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu'r rheolaethau yn 2011 trwy ddiweddaru gweithdrefnau ariannol i adlewyrchu creadigaeth y Bwrdd Iechyd a thrwy gofnodi pob achos o esgeuluster clinigol ac anafiadau personol ar system gyfrifiadurol LASPAR.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

36. Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. I helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynhaliodd yr archwilwyr 'asesiad strwythuredig' o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn y Bwrdd Iechyd. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi ystyried y trefniadau ar gyfer y canlynol:

- llywodraethu ac atebolrwydd;
- defnyddio 'ffactorau galluogi' allweddol i ategu'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus; a
- rheoli ariannol.

37. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn crynhoi canfyddiadau nifer o adolygiadau archwilio perfformiad penodol rwyf wedi'u cynnal yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.

### Er bod yna drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd pwysig

38. Mae cael safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion sylfaenol o ran dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn effeithiol ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i gefnogi penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Fel rhan o'r Asesiad Strwythuredig, mae'r archwilwyr wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd.

39. Deuthum i'r casgliad uchod o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gweledigaeth pum mlynedd glir y bydd angen ei gwneud yn ganolog i'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau'n weithredol**

40. Cafodd y Bwrdd Iechyd gymorth partneriaid a chynrychiolwyr staff i ddatblygu'r cynllun 5 mlynedd, '*Changing for the better*', sy'n nodi gweledigaeth a chyfeiriad ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd mewn modd sy'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad. Mae mesurau canlyniadau bras wedi'u nodi ac, er nad



DRAFT

yw'r rhain wedi'u cofnodi'n benodol, mae yna gysylltiadau clir a chyson rhwng y strategaeth, y cynlluniau gweithredol a'r cynllun corfforaethol un flynedd.

41. Yr heriau i'r Bwrdd Iechyd wrth symud ymlaen yw datblygu targedau a chanlyniadau mesuradwy, ac ysgogi staff i weithredu rhaglen o newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth a fydd yn cyflawni amcanion uchelgeisiol y flwyddyn.

### Mae yna strwythur sefydliadol clir gydag ymgysylltiad clinigol da wedi ei roi ar waith a'i gyfleu i bawb, ond mae angen eglurhad pellach ar berthynas gwaith lleol a gwaith cyfarwyddiaethau

42. Ymgynghorodd y Bwrdd Iechyd â staff a phartneriaid ar strwythur y sefydliad, sy'n darparu fframwaith sydd wedi'i ddiffinio'n dda i gefnogi darpariaeth weithredol. Mae'r strwythur yn hyrwyddo dull system gyfan ar draws gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac acíwt gyda ffocws clinigol cryf. Mae yna drefniadau ar waith o dan lefel y cyfarwyddwr gweithredol a'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddiaethau a'r ardaloedd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion sefydliadol.

43. Fodd bynnag, mae angen parhau i ddatblygu rhai meysydd, fel cyfrifoldebau gweithredol a rennir mewn meysydd allweddol fel rheoli perfformiad a llywodraethu clinigol. Mae heriau eraill yn cynnwys egluro'r berthynas waith rhwng ardaloedd lleol a chyfarwyddiaethau ar lwybrau triniaeth cleifion, a gallu'r ardaloedd lleol i fanteisio ar gyfleoedd i weithio mwy mewn partneriaeth.

### Mae yna strwythurau a chynlluniau dirprwyo priodol ar waith i lywodraethu'r busnes, ond mae angen datblygu'r trefniadau er mwyn gwella cydgysylltiad y fframwaith llywodraethu

44. Mae'r Bwrdd a'i strwythurau pwyllgor ategol wedi'u sefydlu, ac mae Cadeirydd y Bwrdd wedi penodi arweinwyr a hyrwyddwyr ym meysydd arbennig o swyddogaethau a gweithgareddau'r Bwrdd. Mae cynllun dirprwyo ar waith i helpu'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr gweithredol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a materion allweddol

45. Mae gwaith yn mynd rhagddo i esbonio'r fframwaith sicrwydd ar gyfer llywodraethu, ac mae angen gweithredu llwybr archwilio clir o gamau a gymerwyd mewn ymateb i waith craffu'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

### Mae strategaeth a fframwaith rheoli risg wedi'u datblygu, ond nawr rhaid gweithredu'r trefniadau hyn yn gyson ac atgyfnerthu diwylliant o reoli risg a dysgu sefydliadol

46. Mae strategaeth rheoli risg gynhwysfawr wedi'i datblygu ac mae yna fframwaith risg sy'n cefnogi'r cynllun corfforaethol.

47. Fodd bynnag, nid yw pob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r strategaeth a'r fframwaith hyn i asesu risgiau yn yr un modd. Yn ogystal â hyn, nid yw rhai agweddau ar y fframwaith yn gweithredu'n effeithiol, fel trafod hawliadau a digwyddiadau, ac mae angen mwy o eglurhad ar rai agweddau, fel risgiau penodol sy'n ymwneud â phartneriaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol iawn o'r gwendidau hyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw,



DRAFT

ac i sicrhau bod diwylliant o reoli risg a dysgu sefydliadol yn rhan annatod o'r Bwrdd Iechyd.

### Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar reolaeth fewnol yn effeithiol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i atgyfnerthu'r fframwaith sicrwydd cyffredinol ymhellach

48. Mae gan y Bwrdd Iechyd swyddogaeth Archwilio Mewnol effeithiol tu hwnt sy'n darparu lefel uchel o sicrwydd ac sy'n cydymffurfio â'r safonau archwilio mewnol diwygiedig ar y cyfan. Mae yna hefyd drefniadau cadarn ar waith i fonitro ei fod yn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

49. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nad yw'r dystiolaeth sy'n sail i'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol wedi'i chofnodi'n llawn eto, ac mae wedi cynnal adolygiad canol blwyddyn i fynd i'r afael â'r gwendid hwn ar gyfer diwedd blwyddyn 2010-11. Mae is-bwyllgorau'r Bwrdd wrthi'n egluro'u cylch gorchwyl hefyd er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad yn well.

### Er bod yna drefniadau cynhwysfawr ar gyfer adolygu a monitro targedau'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol (AOF) a thargedau perfformiad lefel uchel, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau

50. Mae'r trefniadau cynhwysfawr ar gyfer adolygu a monitro targedau'r AOF a thargedau perfformiad lefel uchel yn llwyddiannus o ran canfod ac amlygu problemau yn y meysydd targed lleol a chenedlaethol allweddol.

51. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw'r gwaith o fesur a rheoli perfformiad yn hybu gwelliannau'n gyfan gwbl ar draws y gwasanaeth, ond mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i ddatblygu systemau a mesurau canlyniadau gwell, yn arbennig mewn perthynas â safon y gwasanaethau a gwella diogelwch cleifion.

### Mae yna drefniadau datblygedig ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb, gyda diwylliant gwrth-dwyll cryf a chodau ymddygiad clir

52. Mae yna Godau Ymddygiad ar waith ac mae'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth yn gadarn ar y cyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu diwylliant gwrth-dwyll cryf ac mae'r dull o atal twyll yn un cadarn, gydag Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol gweithredol ac effeithiol sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

DRAFT

### Ceir tystiolaeth gadarnhaol bod 'ffactorau galluogi' yn cael eu datblygu a'u defnyddio i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, ond mae angen gwneud mwy o gynnydd mewn rhai meysydd

53. Mae rheoli adnoddau allweddol, fel pobl ac asedau, yn dda yn nodwedd hanfodol o ran cyflawni gwerth da am arian. Rhaid seilio cynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed arian ar waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:

- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
- technoleg a rheoli gwybodaeth (IM&T)
- rheoli asedau;
- caffael;
- gweithio gyda sefydliadau partner; ac
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

### Mae cynnydd yn cael ei wneud yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu a chaiff ei ystyried yn flaenoriaeth; fodd bynnag, nid oes cynlluniau ar gyfer y gweithlu sy'n gwbl ymatebol i'r newidiadau yng ngwasanaethau'r Bwrdd Iechyd a'r pwysau ariannol sydd arno wedi'u cwblhau hyd yma

54. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu cynlluniau mwyfwy cadarn ar gyfer y gweithlu, sy'n seiliedig ar gyfeiriad strategol mwy eglur. Mae'n mynd i'r afael â'r gwendidau, fel anghysondebau yn yr agenda ar gyfer newid, fel blaenoriaeth. Mae ansawdd y data'n gwella ac mae'r adran Adnoddau Dynol yn arwain y gwaith o hybu datblygiad systemau data gwell.

55. Fel rhan o'r gwaith o addasu cymysgedd sgiliau staff y Bwrdd Iechyd, ymddengys fod yna ddull cytbwys o gyflawni mwy o gynhyrchiant/effeithlonrwydd ac o leihau costau, ond ychydig iawn o ganlyniadau mesuradwy a welwyd hyd yn hyn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i bennu'r anghenion hyfforddi ac i gyflwyno system arfarnu a datblygu perfformiad safonol er mwyn cyflawni amcanion strategol y gweithlu.

### Er bod y trefniadau ar gyfer darparu gweithredol yn effeithiol ac wedi'u diffinio'n dda, mae yna le i ddefnyddio'r gwasanaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn fwy strategol ar draws y Bwrdd Iechyd

56. Seilir gwasanaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd ar drefniadau da iawn a etifeddwyd, ac mae yna ddarpariaeth effeithiol ar lefel weithredol, a allai arwain at swyddogaeth graffu effeithiol.



DRAFT

57. Ni chafodd Bwrdd Llywodraethu'r Strategaeth Wybodaeth (ISGB) ei sefydlu tan fis Medi 2010. O ganlyniad, mae ei aelodaeth, ei ffocws a'i linellau adrodd i'r prif Fwrdd yn eu camau datblygu cynnar. Nid yw'n amlwg eto sut y bydd yr ISGB yn bodloni ei rôl strategol a'i rôl o ymgysylltu â defnyddwyr mewn ffordd effeithiol, na sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth fel adnodd strategol.

### Mae dull rheoli ystadau ac asedau'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac yn cefnogi dull cydgysylltiedig o gynllunio gwasanaethau a chyfalaf

58. Mae'r Strategaeth Ystadau ddrafft yn ymwneud â'r sefydliad cyfan ac yn ceisio hyrwyddo'r gwaith o foderneiddio'r gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar yr ystâd gofal sylfaenol, cynaliadwyedd a gweithio mewn partneriaeth. Er mai dim ond adroddiadau ar y rhaglen gyfalaf a gaiff y Bwrdd Iechyd, adolygir perfformiad cyfalaf a chynnal a chadw peiriannau ar sail dangosyddion cenedlaethol a gwybodaeth Ystadau Iechyd Cymru.

59. Mae yna gofrestr o asedau'r Bwrdd Iechyd, ond mae yna gynlluniau ar y gweill i wella cywirdeb ac olrhain asedau trwy ddirprwyo'r cyfrifoldebau hyn i'r Cyfarwyddiaethau a'r ardaloedd lleol.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd swyddogaeth gaffael effeithiol sydd mewn sefyllfa dda i greu arbedion yn y dyfodol trwy gaffael strategol, cydweithredol a chynaliadwy

60. Mae Strategaeth Gaffael y Bwrdd Iechyd yn nodi beth gall caffael ei wneud ac mae'n cynnwys targedau gwella costau clir. Mae'r swyddogaeth gaffael wedi'i lleoli'n dda o fewn y strwythur rheoli, mae ganddi drefniadau gweithredol cadarn ac mae gan y staff y cymwysterau hanfodol sydd eu hangen arnynt.

61. Serch hynny, mae yna le i ehangu dylanwad y swyddogaeth hon o fewn y Bwrdd Iechyd, i wella caffael cydweithredol â phartneriaid ac i gynnwys caffael cynaliadwy mewn trefniadau.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu gwaith partneriaeth ac mae ganddo sylfaen dda i adeiladu arni

62. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ac mae wrthi'n datblygu trefniadau i wella partneriaethau gyda phob sector, er enghraifft, trwy benodi Cyfarwyddwr Ardal ar y cyd â Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gwaith partneriaeth yn newid o fewn y sector acíwt (yn y Cyfarwyddiaethau) wrth i rôl Ardaloedd Lleol o ran rheoli gwasanaethau gofal cymunedol a sylfaenol ddatblygu ymhellach.

63. Fodd bynnag, mae'r gwaith ad-drefnu wedi effeithio ar ddatblygiad gwaith partneriaeth, ac wedi'i rwystro mewn rhai achosion, er enghraifft, lle nad oes digon o staff i fanteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn yr ardaloedd lleol.

DRAFT

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu nifer o ddulliau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion ac mae'n parhau i ddatblygu'r trefniadau hyn

64. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi etifeddu timau cyfathrebu a phrofiad cleifion cryf sydd yn cyflawni gwaith annibynnol o safon uchel i grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

65. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o gyflwyno gweithgareddau sy'n ymwneud â chyfathrebu corfforaethol ac ymgysylltu â chleifion/y cyhoedd, yn arbennig wrth ddatblygu'r berthynas â'r Cyngor Iechyd Cymuned newydd. Bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd gynorthwyo'r Ardaloedd Lleol wrth iddynt ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r newidiadau yn y gwasanaethau cymunedol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol a monitro'r gyllideb effeithiol yn ystod y flwyddyn, ond mae'n wynebu heriau o ran cyflawni ei dargedau ariannol ar gyfer 2010-11 a thu hwnt

### Mae yna gynllunio ariannol cadarn yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ac er bod yna gynllun ariannol tymor canolig lefel uchel, nid yw'r cynlluniau manwl sy'n ei ategu wedi'u cwblhau eto

66. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol blynyddol sy'n seiliedig ar ragamcaniadau ariannol ac asesiadau risg cadarn gan staff gweithredol allweddol a phenaethiaid cyllid penodol. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru gan gyfarwyddwyr gweithredol gydol y flwyddyn a'i seilio ar gynlluniau ariannol manwl sydd â chysylltiad clir â gwasanaethau, wedi'u hategu gan gynlluniau arbed arian. Caiff cynlluniau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a chyrff eraill eu hystyried, ond mae yna le i ymgynghori'n well â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill.

67. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati mewn modd cynhwysol i weithredu'r cynlluniau arbed arian hyn, wrth i'r cyfarwyddiaethau a'r ardaloedd unigol eu paratoi a chytuno arnynt. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau arbed arian hyn, o angenrheidrwydd, yn canolbwyntio ar heriau'r flwyddyn ac, er bod yna drefniadau monitro cadarn ar waith, nid yw'n debygol y bydd y rhaglen lawn o arbedion cost yn cael ei chyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

68. Mae yna gynllun ariannol tymor canolig, lefel uchel ar waith hefyd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu'r cynlluniau manwl sylfaenol a sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol o'r heriau ariannol difrifol sydd o'u blaen.

### Mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau a thargedau ariannol wedi ennill ei blwyf, ond gellid ei wella ymhellach trwy gael cysylltiadau mwy eglur rhwng perfformiad ariannol a gweithgarwch gweithredol

69. Mae gweithdrefnau monitro cyllideb effeithiol yn cael eu defnyddio ledled y Bwrdd Iechyd gydag adroddiadau cywir a manwl yn cael eu cyflwyno i ddeiliaid cyllideb yn rheolaidd. Adroddir ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn rheolaidd a chaiff ei fonitro'n agos ledled y sefydliad a gan y Bwrdd. Fodd bynnag, byddai'r adroddiadau lefel uwch yn elwa o gael cysylltiad gwell rhwng goblygiadau ariannol a gweithgarwch gweithredol er mwyn hybu dadleuon a thrafodaethau.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her i gyflawni gweddill ei gynllun arbedion am y flwyddyn a mantoli'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2011 yn unol â'r rhagolwg

70. Roedd angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion o £77.4 miliwn yn 2010-11. O'r cyfanswm hwn, nodwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai angen mesurau risg uchel i gyflawni £24 miliwn ohono a nodwyd y sefyllfa hon i Lywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd. Ym mis Ionawr 2011, cadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod am ddyrannu £24 miliwn ychwanegol. Ar y sail hon, a gan ystyried y cynnydd cyfredol yn erbyn y cynlluniau sy'n weddill i arbed tua £55 miliwn (oddeutu 5.5 y cant o gyfanswm ei wariant arfaethedig), mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd wedi mantoli'r gyllideb erbyn 31 Mawrth 2011. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu'r her o geisio cyflawni gweddill y cynllun arbed arian i fodloni'r targed hwn.

## Mae adolygiadau archwilio perfformiad wedi nodi rhai datblygiadau cadarnhaol ledled y sefydliad ynghyd â heriau penodol i'r Bwrdd Iechyd wrth iddo fynd i'r afael â'r amrywiadau a'r bylchau yn narpariaeth gwasanaethau

71. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cyfuno canfyddiadau gwaith archwilio perfformiad sydd wedi edrych ar feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'n crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith a wnaed ar:

- gywirdeb data rhestrau aros;
- gwasanaethau iechyd meddwl oedolion;
- arlwyo mewn ysbytai;
- gwireddu buddion y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol
- staffio ar wardiau; a
- threfniadau ar gyfer gweithredu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

DRAFT

72. Mae canfyddiadau'r adolygiadau archwilio perfformiad wedi eu crynhoi yn Arddangosyn 2 isod.

**Arddangosyn 2: Rhaglen y gwaith ar berfformiad**

**Cywirdeb data rhestrau aros**

Canfu'r adolygiad hwn fod cywirdeb y data a'r trefniadau ar gyfer cofnodi ac adrodd ar wybodaeth am restrau aros yn dderbyniol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r data'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf o'r elfennau arfer da ar gyfer cofnodi ac adrodd ar wybodaeth am restrau aros ar waith. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r dull o wirio cywirdeb y data gan nad oes unrhyw archwiliad rheolaidd o gywirdeb y data Atgyfeirio i Driniaeth (RTT). Er bod yna rai gwallau bychan yn y data a bod yna le i wella rhai agweddau ar gofnodi ac adrodd ar y data, nid oedd y rhain yn ddigon difrifol i danseilio cywirdeb cyffredinol sefyllfa rhestrau aros y Bwrdd Iechyd, na'i drefniadau ar gyfer cofnodi ac adrodd ar wybodaeth am restrau aros.
- Seiliwyd ein hasesiad ar systemau a phrosesau TG cyfredol, sy'n dderbyniol. Nodwyd bod yna gynlluniau datblygedig i ddisodli'r systemau PIMS ac iPM gydag un system gweinyddu cleifion.

**Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion**

Daethom i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ers ein hadolygiad sylfaenol yn 2005, ond mae yna fylchau allweddol yn parhau mewn gwasanaethau ac mae'n bosibl na all rhai gwasanaethau fodloni'r galw. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae trefniadau cynllunio effeithiol wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o wella gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, ond mae yna ddiffyg gweledigaeth strategol glir o hyd a gellid ymgysylltu mwy â defnyddwyr gwasanaethau;
- mae'r ddarpariaeth gofal sylfaenol wedi gwella'n sylweddol ers 2005 ond mae yna fylchau allweddol o hyd yn y trefniadau cymorth gan wasanaethau arbenigol ac nid oes unrhyw weithwyr porth ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- mae llawer llai o welyau a mwy o wasanaethau cymunedol, ond mae'r trefniadau'n amrywio ar draws y gymuned Iechyd a gallai gallu rhai gwasanaethau fod yn broblem;
- mae yna well darpariaeth therapïau seicolegol ac mae yna gynllun clir ar gyfer gweithredu model gofal grisiog, ond mae darpariaeth y gwasanaethau ledled y tair ardal yn amrywio ac mae amserau aros yn parhau i fod yn broblem;
- mae'r mynediad i dai priodol a chymorth sy'n ymwneud â thai'n amrywio ledled y tair sir gyda'r rhaglen sy'n helpu pobl i ddychwelyd adref yn Abertawe yn arwain datblygiadau yng Nghymru; ac
- nad yw defnyddwyr gwasanaethau'n cael cyfle i gyfrannu digon at y ffordd y darperir eu gofal personol ac nid oes gwasanaethau eirioli cymunedol ar gael.

DRAFT

| Arlwyo mewn ysbytai |
|---|
| Mae'r gwasanaethau arlwyo lleol yn diwallu anghenion cleifion yn eithaf effeithiol, ond gellid gwneud mwy i safoni gwasanaethau arlwyo a gwella profiad cleifion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• mae'r trefniadau cynllunio a rheoli ar gyfer y gwasanaethau arlwyo'n effeithiol ar y cyfan ym mhob ysbyty, ond gellid eu hatgyfnerthu trwy gael y Bwrdd i graffu mwy arnynt;<br>• mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu bwyd a rheoli costau;<br>• mae'r trefniadau ar gyfer cludo'r bwyd i wardiau a chleifion yn effeithiol ar y cyfan, ond mae yna le i wella profiad y cleifion yn ystod amserau bwyd;<br>• mae'r gwasanaethau arlwyo'n ddigon hyblyg i sicrhau bod y mwyafrif o gleifion yn derbyn y maeth angenrheidiol, ond nid yw statws maeth cleifion yn cael eu sgrinio'n llawn bob amser wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty; ac<br>• er bod y Bwrdd yn gofyn am farn cleifion, gellid gwneud mwy i hyrwyddo sut bydd eu barn yn cyfrannu at welliannau mewn gwasanaethau, gan ystyried bod y boddhad cyffredinol yn weddol isel. |
| **Gwireddu buddion y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol** |
| Canfuom fod y contract meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion ar y cyfan trwy ddefnyddio cynlluniau swyddi blynyddol sy'n hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwelliannau yn y gwasanaeth. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• mae adolygiadau cynlluniau swyddi blynyddol ar waith ledled yr holl gyfarwyddiaethau, er bod effeithiolrwydd adolygiadau o gynlluniau swyddi yn amrywio;<br>• mae'r cysylltiadau gwaith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn dda ar y cyfan ac mae'r contract yn cyfrannu at newidiadau yn narpariaeth gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'r agenda moderneiddio; ac<br>• mae meddygon ymgynghorol wedi elwa o gael mwy o gyflog ac ychydig iawn o broblemau a gaiff y Bwrdd Iechyd gyda recriwtio a chadw, ond mae ffactorau eraill, fel y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, yn achosi problemau. |
| **Staffio ar wardiau** |
| Daethom i'r casgliad nad oedd cydbwysedd rhwng y trefniadau staffio ar wardiau, gyda llai o staff na'r disgwyl mewn rhai rhannau o'r sefydliad a'r angen i wneud mwy o waith i ddeall a mynd i'r afael ag amrywiadau amhriodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• nid oes yna eglurhad clir dros y gwahaniaethau yn nifer y staff mewn wardiau ledled y sefydliad, ac, yn gyffredinol, gwelir llai o staff na'r disgwyl;<br>• mae costau staff nyrsio cyfwerth ag amser cyflawn yn gyfartalog, ond mae'r costau fesul pob gwely sydd ar gael yn isel ac yn amrywio rhwng ysbytai; ac<br>• mae yna anghysondebau o ran defnyddio a rheoli staff, gorddibyniaeth ar staff dros dro a pherthynas gwrthdro rhwng lefelau salwch a staffio. |

DRAFT

| Trefniadau ar gyfer gweithredu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|
| Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ymateb effeithiol i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n monitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu sy'n deillio ohonynt yn effeithiol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer ystyried adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac yna datblygu cynlluniau gweithredu; ac<br>• mae pob un o gynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru'n cael ei fonitro ar lefel uchel a chaiff adroddiadau statws eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. |

DRAFT

Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau ar Archwilio Ariannol** | |
| Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2010 |
| **Adroddiadau Archwilio Perfformiad** | |
| Cywirdeb data rhestrau aros | Mawrth 2010 |
| Staffio ar wardiau | Gorffennaf 2010 |
| Trefniadau ar gyfer gweithredu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru | Medi 2010 |
| Arlwyo mewn Ysbytai | Tachwedd 2010 |
| Gwireddu buddion y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol | Ionawr 2011 |
| Asesiad Strwythuredig | Mawrth 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | Medi 2009 |
| Adroddiad Etifeddiaeth | Ionawr 2010 |
| Strategaeth Archwilio | Chwefror 2010 |
| Llythyr archwilio blynyddol interim – cyrff rhagflaenol | Mehefin 2010 |

Mae yna hefyd nifer o archwiliadau perfformiad sydd naill ai yn yr arfaeth neu'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn y Bwrdd Iechyd. Rhestrir y rhain isod a dangosir dyddiad bras ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Iechyd Meddwl Oedolion | Mawrth 2011 |
| Adolygiadau dilynol o Staffio ar Wardiau, Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, Mamolaeth, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Gofal heb ei drefnu | Chwefror - Rhagfyr 2011 |
| Defnydd o theatrau a pherfformiad arhosiad byr/llawfeddygaeth ddydd | Ebrill 2011 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Prosiect lleol ar Ofal Iechyd Parhaus | Cytunwyd i beidio â bwrw ati i wneud gwaith lleol ar Ofal Iechyd Parhaus ar hyn o bryd oherwydd y gwaith cenedlaethol cyfredol ar y pwnc hwn. Bydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn trafod sut y defnyddir yr amser hwn ar gyfer prosiectau eraill. |

DRAFT

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk